

Ffordd Pererindod Penrhys Llandaf i Radur



Cychwyn: Drws y Gorllewin, Cadeirlan Llandaf (cyfeiriad grid ST 155781, còd post CF5 2LA)

Diwedd: Heol Windsor, Radur (cyfeiriad grid ST 130802, còd post CF15 8BQ)

Pellter: 2.5 milltir / 4cm

1. O Ddrws Gorllewin Cadeirlan Llandaf, ewch lan y grisiau a throi i'r dde ar hyd y lôn. Ewch heibio adeilad gwyn, Tŷ Prebendal.
2. Ar ôl rhyw 100 llath (90m) trowch i'r chwith ar hyd y llwybr. Ar ôl 100 llath (90m) mae sedd wedi ei cherfio yn y wal, ac un arall. Dyma hen Ffordd y Pererinion. Yn y canrifoedd ar ôl hynny, roedd y llwybr hwn yn cael ei alw yn Ffordd y Meirw am ei fod yn cael ei ddefnyddio gan bobl o Ogledd Llandaf i gario cyrff eu ceraint i gael eu claddu ym mynwent y gadeirlan.
3. Trowch i'r chwith ger yr arwydd cyntaf (sydd â Gogledd Llandaf arno). Os ydych am weld cored Llandaf, pan fyddwch chi wedi cyrraedd top y llwybr, trowch yn galed i'r dde a dilynwch y llwybr am ychydig tan i chi weld y gored. Pan 'rydych yn barod i fynd yn ôl i lwybr y Pererinion, ewch yn ôl yr un ffordd i'r arwydd i Ogledd Llandaf.
4. Ar ôl 160 llath (150m) mae'r llwybr yn troi yn sydyn i'r chwith ar hyd ffin Clwb Rhwyfo Llandaf.
5. Trowch i'r dde pan gyrhaeddwch chi Heol y Bont. Yn syth wedi'r troad i'r Clwb Rhwyfo, trowch i'r dde eto a dilynwch y llwybr ar lan yr afon. Mae'r llwybr yn croesi llwybr byr a chul arall sy'n mynd â chi at lan yr afon, os ydych am hoe fach a gweld yr olygfa. Gallwch fynd yn ol yr un ffordd at y llwybr iawn.
6. Ymlaen â chi ar hyd y llwybr, gan basio dau ffwrwm ac fe ddowch yn ôl i Heol y Bont.
7. Pan gyrhaeddwch y ffordd, trowch i'r dde.
8. Croeswch y ffordd i fynd i Heol Cwrt Radur. I wneud hynny'n ddiogel, gallwch barhau dros bont yr afon a chymryd y grisiau ar y dde, sy'n arwain i'r tanffordd. Neu gallwch fynd ymhellach at groesfan Zebra.
9. Cerddwch ar hyd Heol Cwrt Radur. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r chwith (Gerddi Taf), ar ôl rhyw 650 llath (600m), ewch yn eich blaen, gyda glan yr afon ar y dde. Ychydig ar ôl i chi fynd heibio Gerddi Taf, mae cymeriad Heol Cwrt Radur yn newid i fod yn fwy gwledig.
10. Ewch yn eich blaen ar hyd y ffordd o dan y bont, gan fynd ychydig i'r chwith lan y goledd. Ewch lan y rhiw heibio Tŷ Isaf. Ychydig cyn y rhwystr beic modur trowch i'r llwybr ar y dde. Os ydych am alw yn nhafarn y Radyr Court, daliwch i fynd lan y llwybr heibio'r rhwystr. Maen nhw'n dweud mai dyma'r llwybr a ddefnyddiai'r pererinion. Mae'n un o'r enghreifftiau gore o lwybr

suddedig yng Nghymru. Efallai iddo gael ei erydu gan y pererinion fyddai'n ei dramwyo'n gyson, neu mae'n bosib iddo gael ei suddo yn fwriadol i lefel is. Mae'r llwybr yn mynd â chi i Ffordd Danescourt. Croeswch honno i fynd at dafarn y Radyr Court a dyrnaid o siopau, sy'n cynnwys Swyddfa'r Post. Mae stamp Danescourt Ffordd y Pererinion ar gael yn Swyddfa'r Post. Yn y Radyr Court Inn y byddai'r teulu Matthew yn rhoi llety i'r pererinion ar noson gynta'r bererindod. Fe fyddent i gyd yn cael eu bwydo. Yn dibynnu ar eu statws cymdeithasol, byddent yn cael cynnig gwely neu'r sgubor i gysgu ynddo. Roedd y teulu Matthew yn ddylanwadol iawn yn Llandaf, Radur a Creigiau pan roedd Pererindod Penrhys yn ei anterth. Os ydych am lai o gerdded o Landaf, gyda llaw, mae 'na safle bws ar Ffordd Danescourt. I barhau i gerdded, ewch yn ol yr un ffordd, croeswch y rhwystr beic modur, a throwch i'r chwith i'r llwybr.

11. Ewch ymlaen am rhyw hanner milltir (500m). Byddwch yn mynd heibio i hen gware Radur, ffynhonnell Carreg Radur (clymfaen goch o'r cyfnod Triasig). Hon yw'r garreg a ddefnyddiwyd i godi adeiladau hanesyddol Llandaf.
12. Mae'r llwybr yn mynd i Glôs De Braose.
13. Bron yn syth, trowch i'r dde i fyny'r grisiau (mae'r ffordd yn mynd yn syth ymlaen) ac ewch yn syth yn eich blaen wrth y glwyd fetel nesaf. Byddwch yn cyrraedd Gwarchodfa Natur Lleol Gallt y Meudwy. Ychydig ar ôl mynd heibio llwybr troed llydan ar y chwith, fe allwch weld afon Taf islaw. Rydych yn cerdded ar gopa craig yr afon. Credir bod gan y meudwy Tylyuguay gell yma ger Ffynnon Sanctaidd Pistyll Golau. Yn ôl y chwedl Sant Cadog a greodd y ffynnon. Mae hi wedi cael ei chuddio er mwyn ei diogelu.
14. Pan ddowch chi i gyffordd siâp Y, ewch i'r chwith lan y goledd ac ewch ymlaen heibio ffwrwm. Rydych nawr yng Nghoedwig Radur.
15. Fe ddowch i fwrdd gwybodaeth Coedwig Radur. Trowch i'r dde i Woodfield Avenue.
16. Pan ddowch chi i'r pen, croeswch y ffordd (Heol Isaf) a cherddwch lan Heol Fferm Radur. Os ydych am ddefnyddio croesfan Zebra, pan ddowch chi at Heol Isaf, trowch i'r chwith a lan y rhiw tuag at Ysgol Gyfun Radur. Wedi i chi groesi a chyn i chi fynd ar hyd Heol Fferm Radur, arhoswch ac edrych i'r dde, ac fe welwch Castell Coch yn y pellter. Os ydych am gael stamp ar eich Pasbord, mae un o stampiau Radur ar gael yn Eglwys Christ (Crhistchurch) sydd rhyw 200 llath i lawr tuag at y pentre. Yna ewch yn ôl yr un ffordd i gyrraedd Heol Fferm Radur.
17. Ewch yn eich blaen am rhyw 200 llath (180m), a chroesi clos Parc Radur.
18. Ychydig cyn y glwyd a'r gamfa dilynwch y llwybr ar y dde. Croeswch y ffordd, ac ewch yn eich blaen ar hyd Plas y Mynach. Ewch i Rodfa Llantarnam ac yn syth wedyn trowch i Ffordd y Porthmyn. Fe gafodd Rhodfa Llantarnam yr enw oherwydd y cysylltiad â phererindod Penrhys ac abaty Sistersaidd Llantarnam. Roedd Penrhys yn faenor i'r Abaty. Fferm ar y cyrion oedd yn perthyn i fynachlog oedd maenor.

19. Dilynwch Ffordd y Porthmyn tan iddi droi'n sydyn i'r chwith ac ewch ar hyd y llwybr ar y dde rhwng y tai.

20. Ar y pen mae Heol Windsor. Ewch i'r chwith yma i barhau â chymal nesa'r daith.

I ddychwelyd i Landaf, ewch i'r dde a mynd lawr Ffordd Windsor i Heol Isaf. Mae 'na sawl safle bus ar hyd Heol Isaf - ar y chwith i chi neu'r dde. Bydd rhaid i chi groesi'r ffordd i ddal bus i Landaf. I ddychwelyd i Orsaf Ganolog Caerdydd, croeswch Heol Isaf. Dilynwch Heol yr Orsaf lawr i'r orsaf drenau.

Gyda diolch i Janet Sully a phawb sydd wedi cyfrannu at fapio'r daith.

28/02/2020